O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L  C Y M R U

# 2019 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin i Drecastell, Powys) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Chwefror 2019* |
| *Yn dod i rym* | *25 Chwefror 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin i Drecastell, Powys) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 25 Chwefror 2019.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**); a

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

W E L S H  S T A T U T O R Y  I N S T R U M E N T S

# 2019 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A40 Trunk Road (Llandovery, Carmarthenshire to Trecastle, Powys) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2019

| | |
|---|---|
| *Made* | *19 February 2019* |
| *Coming into force* | *25 February 2019* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A40 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title, Commencement and Interpretation

**1.** The title of this Order is the A40 Trunk Road (Llandovery, Carmarthenshire to Trecastle, Powys) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2019 and it comes into force on 25 February 2019.

**2.** In this Order:

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means:

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(**2**); and

(**1**) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(**2**) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 25 Chwefror 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o waith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" *("lluoedd arbennig")* means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

"the trunk road" *("y gefnffordd")* means the A40 Raglan to Llandovery Trunk Road;

"works period" *("cyfnod y gwaith")* means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 25 February 2019 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau yn erthyglau 4 a 5 yn weithredol.

**Prohibitions and Restrictions**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

**4.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

**5.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedules 2 and 3 to this Order.

**6.** No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedules 2 and 3 to this Order during such times as the restrictions specified in articles 4 and 5 are in operation.

**Cymhwyso**

**7.**—(1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw terfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Application**

**7.**—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) . No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

**Atal Dros Dro**

**8.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy’n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i’r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4 a 5 yn weithredol.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 19 Chwefror 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLENNI**

**ATODLEN 1**
**Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o’i chyffordd â’r A483 yn Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin hyd at bwynt 5 metr i’r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Vicarage Road, Trecastell, Powys.

**ATODLEN 2**
**Terfynau Cyflymder Dros Dro o 40 mya neu 10 mya a Dim Goddiweddyd**

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’r arwydd terfyn cyflymder parhaol o 30 mya wrth ben dwyreiniol Llanymddyfri hyd at bwynt 1.1 cilometr i’r de-ddwyrain o ffin sirol Sir Gaerfyrddin/Powys yn Halfway.

**ATODLEN 3**
**Terfyn Cyflymder Dros Dro o 10 mya a Dim Goddiweddyd**

Y darn o’r gefnffordd sy'n ymestyn o’i chyffordd â'r A483 yn Llanymddyfri hyd at yr arwydd terfyn cyflymder parhaol o 30 mya wrth ben dwyreiniol Llanymddyfri.

**Suspensions**

**8.** Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in Schedules 2 and 3 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 4 and 5 are in operation.

**Duration of this Order**

**9.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the 19 February 2019

*Richard Morgan*
Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

**SCHEDULES**

**SCHEDULE 1**
**Temporary Prohibition of Vehicles**

The length of the trunk road that extends from its junction with the A483 at Llandovery, Carmarthenshire to a point 5 metres north-west of the centre-point of its junction with Vicarage Road, Trecastle, Powys.

**SCHEDULE 2**
**Temporary 40 mph or 10 mph Speed Limits & No Overtaking**

The length of the trunk road that extends from the permanent 30 mph speed limit sign at the eastern end of Llandovery to a point 1.1 kilometres south-east of the Carmarthenshire/Powys county boundary at Halfway.

**SCHEDULE 3**
**Temporary 10 mph Speed Limit & No Overtaking**

The length of the trunk road that extends from its junction with the A483 at Llandovery to the permanent 30 mph speed limit sign at the eastern end of Llandovery.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (LLANYMDDYFRI, SIR GAERFYRDDIN I DRECASTELL, POWYS) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40 rhwng Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin a Threcastell, Powys neu gerllaw iddi.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. Gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r A40 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall yn yr Atodlen honno hefyd.

ii. Gosod terfyn cyflymder o 40 mya neu 10 mya ar y darn o'r A40 a ddisgrifir yn Atodlen 2. Dim ond yn ystod gwaith confoi y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

iii. Gosod terfyn cyflymder o 10 mya a gwahardd goddiweddyd yn ystod gwaith confoi ar y darn o'r A40 a ddisgrifir yn Atodlen 3.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 25 Chwefror 2019 ac yn weithredol, yn ôl yr angen, tan 23:59 o'r gloch ar 24 Mawrth 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Mae'n debygol y bydd y ffordd ar gau mewn rhannau yn ystod y cyfnod hwn a chodir arwyddion i roi hysbysiad ymlaen llaw am y gwaharddiadau cyn i'r gwaith ddechrau. Sicrheir mynediad i eiddo ar hyd y darn a fydd ar gau.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar **www.llyw.cymru** (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/ 2019).

**THE A40 TRUNK ROAD (LLANDOVERY, CARMARTHENSHIRE TO TRECASTLE, POWYS) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTIONS) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road between Llandovery, Carmarthenshire and Trecastle, Powys.

The effect of the Order is to temporarily:

i. Prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the length of the A40 described in Schedule 1 to this Notice. The alternative route is also described therein.

ii. Impose a 40 mph or 10 mph speed limit on the length of the A40 described in Schedule 2. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

iii. Impose a 10 mph speed limit and prohibit overtaking during convoy working on the length of the A40 described in Schedule 3.

It is expected that the temporary prohibitions and restrictions will come into force at 00:01 hours on 25 February 2019 and operate, as required, until 23:59 hours on 24 March 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The road is likely to be closed in sections during this period and notice of the prohibitions will be signed in advance of the works. Access will be maintained to properties along the length of the closure.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at **www.gov.wales** (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**M D BURNELL**
Transport
Welsh Government

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybr Arall

Y darn o'r A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A483 yn Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin hyd at bwynt 5 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Vicarage Road, Trecastell, Powys.

Y llwybr arall ar gyfer traffig trwodd sy'n teithio tua'r dwyrain fydd mynd ar yr A483 tua'r gogledd-ddwyrain i Lanfair-ym-Muallt ac ar yr A470 tua'r de-ddwyrain i Aberhonddu i ailymuno â'r A40 wrth Gylchfan Brynich, Aberhonddu: i'r gwrthwyneb i draffig trwodd sy'n mynd tua'r gorllewin.

### ATODLEN 2
### Terfynau Cyflymder Dros Dro o 40 mya neu 10 mya a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r A40 sy'n ymestyn o'r arwydd terfyn cyflymder parhaol o 30 mya wrth ben dwyreiniol Llanymddyfri hyd at bwynt 1.1 cilometr i'r de-ddwyrain o ffin sirol Sir Gaerfyrddin/Powys yn Halfway.

### ATODLEN 3
### Terfyn Cyflymder Dros Dro o 10 mya a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A483 yn Llanymddyfri hyd at yr arwydd terfyn cyflymder parhaol o 30 mya wrth ben dwyreiniol Llanymddyfri.

## SCHEDULES

### SCHEDULE 1
### Temporary Prohibition of Vehicles and Alternative Route

The length of the A40 that extends from its junction with the A483 at Llandovery, Carmarthenshire to a point 5 metres north-west of the centre-point of its junction with Vicarage Road, Trecastle, Powys.

The alternative route for eastbound through traffic will be via the north-eastbound A483 to Builth Wells and south-eastbound A470 to Brecon to rejoin the A40 at Brynich Roundabout, Brecon: vice versa for westbound through traffic.

### SCHEDULE 2
### Temporary 40 mph or 10 mph Speed Limits & No Overtaking

The length of the A40 that extends from the permanent 30 mph speed limit sign at the eastern end of Llandovery to a point 1.1 kilometres south-east of the Carmarthenshire/Powys county boundary at Halfway.

### SCHEDULE 3
### Temporary 10 mph Speed Limit & No Overtaking

The length of the trunk road that extends from its junction with the A483 at Llandovery to the permanent 30 mph speed limit sign at the eastern end of Llandovery.